Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.4 Cyfarfodydd cyffredinol blynyddol effeithiol

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ofynnol yn ôl y gyfraith i lawer o sefydliadau. Mae'n gyfle i ethol aelodau newydd i'r sefydliad a'r pwyllgor, ac mae hefyd yn gyfle i aelodau leisio'u barn ynglŷn â rheoli'r sefydliad a helpu gyda'i atebolrwydd.

Beth bynnag yw'r strwythur/ffurf gyfreithiol sydd gennych, bydd ganddo un neu ragor o unigolion sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli materion y sefydliad. Dyma'r 'pwyllgor rheoli gwirfoddol' ac mewn cwmni cyfyngedig byddai'r unigolion hyn o bosib yn cael eu galw'n gyfarwyddwyr. Lle bo angen ailethol deiliaid swyddi neu lle bo angen cadarnhau sefyllfa deiliaid swyddi cyfetholedig, mae hynny'n cael ei wneud fel rheol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y sefydliad.

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn cynnig cyfle i aelodau neu fuddiolwyr adolygu sefyllfa ariannol eu sefydliad; y drefn arferol yw bod cyfrifon ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cael eu trafod yn y cyfarfod blynyddol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i aelodau bleidleisio ar benodi/terfynu penodiad deiliaid swyddi ac mae hefyd yn darparu fforwm na fyddai ar gael fel arall er mwyn i aelodau allu codi materion gyda'u deiliaid swyddi mewn grŵp.

Sefydliadau

Ar gyfer sefydliadau lle mae'n bwysig bod aelodau'n cymryd rhan, a lle bo atebolrwydd deiliaid swyddi'n cael ei ystyried yn bwysig, bydd rôl etholiadau a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr un mor bwysig. Yn yr achosion hyn bydd angen drafftio'r cyfansoddiad er mwyn darparu ar gyfer etholiadau a chynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol.

Bydd angen i'r drafft amlinellu'r materion sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – pwy all fod yn bresennol, pwy all bleidleisio, yr wybodaeth sydd i'w hanfon ymlaen llaw ac ystod eang o faterion trefniadol. Y pwynt pwysig yw bod modd drafftio'r darpariaethau hyn i gyd-fynd ag anghenion a gofynion sefydliad penodol.

Cwmnïau

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gwmni cyfyngedig drwy warant hefyd (oni bai ei fod wedi pasio penderfyniad drwy bleidlais i'r gwrthwyneb). Rhaid i gwmni gynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf cyn pen 18 mis ar ôl ymgorffori ac ar ôl hynny, ni ddylai mwy na 15 mis fynd heibio rhwng pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Diffinnir materion Cwmni mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel Materion Arferol neu Faterion Arbennig.

Materion arferol

- Cyflwyno ac ystyried y cyfrifon, mantolen, adroddiad y cyfarwyddwr ac adroddiad yr archwilwyr (os oes angen yr olaf).
- Ethol cyfarwyddwyr.
- Penodi archwilwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (os oes angen).

Ar gyfer materion arferol mae angen penderfyniad arferol, 21 diwrnod o rybudd ar gyfer cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a mwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd
h.y. mwy na hanner y pleidleisiau.

Materion arbennig

Mae hyn yn golygu unrhyw faterion, nad ydynt yn faterion arferol a, chan ddibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gynnig, mae angen penderfyniad arbennig, penderfyniad drwy bleidlais neu benderfyniad arferol. Mae gwahanol gyfnodau rhybudd a mwyafrifoedd ar gyfer gwahanol fathau o benderfyniadau, a rhaid hysbysu Tŷ'r Cwmnïau ynglŷn â rhai.

Trefnu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Y man cychwyn ar gyfer eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yw edrych ar erthyglau cymdeithasu eich sefydliad. Os nad yw'r erthyglau cymdeithasu'n ymdrin â mater, dylech edrych ar gyfraith cwmnïau er mwyn cael gwybod beth i'w wneud.

Mae cyfraith cwmnïau'n nodi rhai rheolau clir a phenodol iawn ar gyfer galw Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cwmni. Er enghraifft:

- Rhaid anfon hysbysiad am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol at holl aelodau'r cwmni, at bob cyfarwyddwr ac at yr archwilwyr.
- Oni bai bod yr erthyglau'n nodi'n wahanol, rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo naill ai gael ei bostio i gyfeiriad tir neu electronig cytunedig, ei ddanfon â llaw neu ei gyflwyno'n bersonol.
- Ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig, y cyfnod statudol o rybudd ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yw 21 diwrnod clir.
- Rhaid anfon y cyfrifon blynyddol, adroddiad yr archwilwyr (os oes angen un) ac adroddiad y cyfarwyddwr ddim llai na 21 diwrnod cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (oni bai bod pob aelod sydd â hawl i bleidleisio wedi cytuno'n wahanol).
- Oni bai bod yr erthyglau cymdeithasu'n nodi'n wahanol, y cworwm ar gyfer cyfarfod cyffredinol cwmni yw dau aelod yn bresennol yn bersonol (h.y. ddim yn cael eu cynrychioli gan ddirprwyon).
- Oni bai bod yr erthyglau cymdeithasu'n nodi'n wahanol, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud yng nghyfarfodydd y cwmni drwy bleidleisio trwy godi llaw neu drwy roi arwyddion priodol. Fodd bynnag, mae gan aelodau hawl i fynnu etholiad neu bleidlais ysgrifenedig ac mae'n bosib y byddwch eisiau cael etholiad ar gyfer rhai penderfyniadau pa un bynnag.

Gwybodaeth y mae angen ei chynnwys yn hysbysiad eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Dyddiad/amser a lleoliad y cyfarfod.
- Datganiad ei fod yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

- Union eiriau unrhyw benderfyniad arbennig neu anarferol a datganiad yn nodi natur y penderfyniadau'n glir.
- Union eiriau neu eglurhad cyffredinol o benderfyniadau arferol.
- Manylion pleidleisio drwy'r post (os caniateir hynny), pleidleisio drwy ddirprwy (os caniateir hynny) a dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen dirprwy.
- Unrhyw benderfyniadau gan aelodau y gwnaethpwyd cais priodol amdanynt, h.y., y gofynnwyd amdanynt gan 5% o'r pleidleiswyr, a arwyddwyd ac a dderbyniwyd gan y cwmni o leiaf 6 wythnos cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Arferion da wrth gynllunio a galw Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

- Gwahoddwch arianwyr a phartneriaid.
- Nodwch yn glir a fyddwch yn derbyn enwebiadau ar gyfer ymddiriedolwyr o'r llawr.
- Cofiwch gadw rhestr gywir, gyfredol o'r aelodau fel bod pob un ohonynt yn cael ei wahodd a'ch bod yn gwybod yn iawn pwy sy'n gymwys i bleidleisio.
- Mynediad, gan gynnwys lleoliad a chyfleusterau, meithrinfa, iaith glir a phapurau wedi eu cyfieithu.
- Rhowch ddisgrifiad byr i'r aelodau o bob person sy'n awyddus i gael ei ethol neu ei ailethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gwnewch bob ymddiriedolwr yn destun cynnig ar wahân.
- Gwnewch yn siŵr bod y ddogfen lywodraethu ac unrhyw reolau sefydlog ar gael yn y cyfarfod a bod y cyfarfod yn cael ei gofnodi'n briodol.
- Gwnewch yn siŵr bod pob gwybodaeth a ffurflen sydd eu hangen ar Dŷ'r Cwmnïau'n cael eu hanfon yno o fewn y cyfnod penodedig ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Etholiadau

Un ffordd o alluogi'r rhai hynny sy'n ymwneud â mudiad gwirfoddol i fonitro perfformiad eu deiliaid swyddi perthynol yw drwy Gyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ac etholiadau rheolaidd ar gyfer deiliaid swyddi.

Mae'r swyddogion cyntaf a benodir mewn unrhyw sefydliad yn debygol o ddod o'r grŵp brwdfrydig sy'n ymwneud â chreu'r corff newydd, neu yn achos ymddiriedolaeth, drwy enwebiad gan yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am greu'r ymddiriedolaeth. Ar ôl hynny, gall etholiadau fod yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft, pan fo angen penodi mwy o ddeiliaid swyddi neu gael rhai eraill yn lle'r rhai sydd wedi ymddeol. Gellir cael sawl math o etholiad. Mewn llawer o ymddiriedolaethau ni fyddai ethol ymddiriedolwr newydd yn ffurfiol drwy gyfeirio at ddymuniadau buddiolwyr yn briodol, ac mae'n bosib y bydd y dewis yn cael ei adael yn nwylo'r ymddiriedolwyr eraill. Ar y llaw arall mae'n fwyfwy cyffredin i weld cyfarwyddwyr cwmnïau'n gorfod ildio'u swyddi ar ôl cyfnod penodol (e.e. tair blynedd) a chynnig eu hunain i gael eu hailethol gan yr aelodau os ydynt yn dymuno parhau â'r swydd. Mae'r penodiadau treigl fel hyn yn cynnig ffordd o asesu perfformiad deiliaid swyddi a fydd yn gwybod y bydd yr aelodau'n craffu ar eu rôl.

Mwy o wybodaeth

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

Tŷ'r Cwmnïau
Ffôn: 0303 1234 500
www.companies-house.gov.uk

Rheolydd Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
Ffôn: 029 20346228
www.cicreg.gov.uk

Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
Ffôn: 020 7066 1000
www.fsa.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:03/12/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk